



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Bil Caffael: Siart Ilif Hysbysiadau






Hysbysiadau sy'n ofynnol o dan Allwedd y Bil Caffael

- Hysbysiadau gorfodol mewn Coch
- Hysbysiadau dewisol mewn Gwyrdd
- Hysbysiadau sy'n ofynnol mewn rhai amgylchiadau mewn Glas




Angen rhoi gwybod islaw'r trothwy






Gweithdrefn Agored/Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol






Dyfarniad Uniongyrchol






Contractau yn ôl y gofyn o fframweithiau






Marchnadoedd Deinamig (DM)



Contract yn ôl y gofyn o farchnadoedd deinamig (DM)





Hysbysiadau Sefydliadol

Rheoli Contract

**Hysbysiadau
cydymffurfio â thaliad**
(O dan y rheoliadau
caffael presennol: mae
Rheoliad 113 o
Reoliadau Contractau
Cyhoeddus 2015 yn ei
gwneud yn ofynnol i
awdurdodau contractio
gyhoeddi i ba raddau
maen nhw wedi
cydymffurfio â'u
rhwymedigaethau o dan
y rheoliad hwn i wneud
taliadau o fewn 30
diwrnod.)



Nodiadau

- 1. Mae Hysbysiadau Dod â Chontractau i Ben yn orfodol ar gyfer contract cyhoeddus, fodd bynnag, nid ydynt yn berthnasol i gyfleustodau preifat, nac mewn perthynas â chontract a ddyfernir o dan adran 41 trwy gyfeirio at baragraff 15 o Atodlen 5 (dyfarniad uniongyrchol: contractau dewis y defnyddwyr).**
- 2. Mae'n ofynnol i awdurdodau contractio Cymru gyhoeddi contractau wedi'u golygu dim ond os dyfarnwyd y contract fel rhan o gaffaeliad o dan drefniant caffael a neilltuwyd (h.y. fframwaith neu Farchnad Ddeinamig a ddyfarnwyd gan awdurdod contractio yn Lloegr / heb ei ddatganoli) ac mae gwerth y contract yn ôl y gofyn dros £5m.**
- 3. Mae'n ofynnol i awdurdodau contractio Cymru gyhoeddi contractau wedi'u haddasu wedi'u golygu neu'r addasiad dim ond os dyfarnwyd y contract fel rhan o gaffaeliad o dan drefniant caffael a neilltuwyd (h.y. fframwaith neu Farchnad Ddeinamig a ddyfarnwyd gan awdurdod contractio yn Lloegr / heb ei ddatganoli) ac mae gwerth y contract yn ôl y gofyn dros £5m.**
- 4. Nid oes angen yr hysbysiad sy'n cadarnhau bod Marchnad Ddeinamig yn peidio â gweithredu os sefydlwyd y Farchnad Ddeinamig gan gyfleustodau preifat.**
- 5. Nid yw hysbysiad tendro ar gyfer contract yn ôl y gofyn o Farchnad Ddeinamig yn berthnasol os yw'r cais yn ôl y gofyn yn ymwneud â:**
 - a) Marchnad Ddeinamig cyfleustodau cymwys; neu**
 - b) Ar gyfer contractau yn ôl y gofyn sy'n is na'r trothwy a roddwyd ar waith gan awdurdod contractio o Gymru**



Disgrifiad o'r holl hysbysiadau o dan y Bil Caffael

1. **Hysbysiad Piblinell** - Gorfodol i awdurdodau contractio sy'n ystyried y byddant yn talu mwy na £100m o dan gytundebau perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac os bydd y contract dros £2m.
2. **Hysbysiad Caffael wedi'i Gynllunio** - Gwirfoddol – sy'n cyfateb i Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (er nad yw'n cael ei ddefnyddio fel modd i alw am gystadleuaeth).
3. **Hysbysiad Ymgysylltu â'r Farchnad Ymlaen Llaw** - Gorfodol os yw awdurdod contractio'n bwriadu neu wedi ymgysylltu â'r farchnad ymlaen llaw. Nid oes rhaid i awdurdodau contraction ymgysylltu â'r farchnad ymlaen llaw, ond os ydynt yn gwneud hynny, rhaid iddynt gyhoeddi hysbysiad ymgysylltu â'r farchnad ymlaen llaw neu ddarparu rhesymau dros wneud hynny yn yr Hysbysiad Tendro.
4. **Hysbysiad Tendro** - Gorfodol pan fo awdurdod contractio'n bwriadu dyfarnu contract cyhoeddus o dan Gymal 19. Nid yw hyn yn berthnasol os yw'r cais Marchnad Ddeinamig yn ôl y gofyn yn ymwneud â Marchnad Ddeinamig cyfleustodau cymwys neu ar gyfer ceisiadau Marchnad Ddeinamig yn ôl y gofyn sy'n is na'r trothwy a roddwyd ar waith gan Awdurdod Contractio o Gymru.
5. **Hysbysiad Dod â Chaffaeliad i Ben** - Gorfodol os bydd awdurdod contractio, ar ôl cyhoeddi tendr neu hysbysiad tryloywder mewn perthynas â contract cyhoeddus, yn penderfynu peidio â dyfarnu'r contract. Sylwer, nid yw hyn yn berthnasol i gyfleustodau preifat.
6. **Hysbysiad Dyfarnu Contract** - Gorfodol cyn ymrwymo i gontract cyhoeddus – yn nodi bwriad i ymrwymo i gontract.
7. **Hysbysiad Manylion y Contract** – Gorfodol – yn nodi bod contract wedi'i gyflwyno. Bydd angen i Hysbysiad Manylion y Contract gynnwys copi o'r contract (wedi'i olygu) dim ond os yw'n gontract yn ôl y gofyn dros £5m a gafaelwyd o dan drefniant caffael a neilltuwyd (h.y. fframwaith neu farchnad ddeinamig a ddyfarnwyd gan awdurdod contractio yn Lloegr/nad yw wedi'i ddatganoli)
8. **Hysbysiad Newid Contract** - Yn orfodol os bodlonir rhai trothwyon a nodir yn y Bil – rhaid ei gyhoeddi cyn addasu contract cyhoeddus sy'n bodoli eisoes (ac eithrio mewn amgylchiadau penodol). Bydd angen i'r Hysbysiad Newid Contract wedi'i ddiweddarau gynnwys copi o'r contract wedi'i addasu (wedi'i olygu) neu'r addasiad dim ond os yw'r contract wedi'i addasu yn gontract yn ôl y gofyn dros £5m a gafaelwyd o dan drefniant caffael a neilltuwyd (h.y. fframwaith neu farchnad ddeinamig a ddyfarnwyd gan awdurdod contraction yn Lloegr/nad yw wedi ei ddatganoli.)



Disgrifiad o'r holl hysbysiadau o dan y Bil Caffael

- 8. Hysbysiad Dod â Chontract i Ben** - Yn orfodol ar gyfer contract cyhoeddus – rhaid ei gyhoeddi o fewn 30 diwrnod o ddod â'r contract i ben (gan gynnwys terfynu gan barti, rhyddhau, diwedd, dadwneuthuriad a'i neilltuo gan orchymyn llys.) Nid yw Hysbysiadau Dod â Chontract i Ben yn gymwys – (a) – i gyfleustodau preifat, neu (b) mewn perthynas â chontract a ddyfarnwyd o dan adran 41 drwy gyfeirio at baragraff 15 o Atodlen 5 (dyfarniad uniongyrchol: contractau dewis y defnyddiwr).
- 9. Hysbysiadau Marchnad Ddeinamig** – Gorfodol pan fydd marchnad ddeinamig yn cael ei hysbysebu, ei sefydlu, ei dyfarnu, ei haddasu neu'n dod i ben. Bydd un hysbysiad o'r enw Hysbysiad Marchnad Ddeinamig, sydd wedyn yn cael ei ddiweddarau wrth iddo lifo trwy bob un o'r camau. 1 – Hysbysebu, 2 – Sefydlu, 3 – Newid, 4 - Terfynu. Sylwch nad yw Cam 4 yn berthnasol os sefydlwyd y Farchnad Ddeinamig gan gyfleustodau preifat.
- 10. Hysbysiad Tryloywder** - Gorfodol lle ceir dyfarniad uniongyrchol o dan Gymal 41 neu Gymal 43.
- 11. Hysbysiadau Cydymffurfio â Thaliadau** - Gorfodol – rhaid cyhoeddi gwybodaeth am gydymffurfio â thaliadau bob 6 mis a chadarnhau cydymffurfiaeth â darpariaethau taliadau prydlon. Bydd yr hysbysiad ond yn dangos cydymffurfiaeth â'r cyfnod talu o 30 diwrnod a bydd yn cael ei gyhoeddi unwaith bob 6 mis mewn perthynas â'r holl gontractau cyhoeddus fel y'u diffinnir yn y bil.
- 12. Hysbysiad Tendr Islaw'r Trothwy** - Gorfodol pan fo awdurdod contractio yn bwriadu hysbysebu at ddiben gwahodd tendrau ar gyfer caffael is na'r trothwy.
- 13. Hysbysiad Perfformiad Contract** - Gorfodol – Yn ystod cam rheoli'r contract bydd angen hysbysiad perfformiad contract ar gyfer pob contract lle cyhoeddwyd DPAau. Rhaid ei gyhoeddi o leiaf unwaith y flwyddyn ac ar gyfer contractau dros £5m. Rhaid ei gyhoeddi hefyd os oes tor contract neu fethiant i gyflawni, ac eithrio contractau cyffyrddiad ysgafn. Nid oes angen hysbysiadau perfformiad contract ar gyfer cyfleustodau preifat.